

# TROI GOFID YN OBAITH



Adroddiad o gynhadledd Academi Hywel Teifi

Gofid neu Gyfle:  
y Gymraeg yn y "Normal Newydd"

10 Mawrth 2021

Lluniwyd yr adroddiad gan:  
Osian Rhys, Gwenno Ffrancon a Lynsey Thomas

# Cyflwyniad

Wrth i staff Academi Hywel Teifi, Prifysgol Abertawe drafod y syniad o drefnu'r gynhadledd hon yn hydref 2020, roeddem yn rhannu rhyw deimlad o chwilfrydedd, bron cyffro, am sut roedd y profiadau roeddem newydd fyw trwyddynt yn debygol o effeithio ar ddyfodol y Gymraeg. Roeddem yn gweld posibiladau lu yn ogystal â heriau sylweddol.



Er i gymdeithas wynebu mesurau a chyfyngiadau llym a nifer annerbyniol o farwolaethau yn sgil yr afiechyd, doedd realiti erchyll ail don gaeaf 2020-21 heb ein taro bryd hynny. Roedd ysgolion a busnesau'r stryd fawr wedi ailagor ac roedd rhai ohonom wedi cael blas ar weithio adref - y boen o addasu i fywyd ar Zoom a Teams wedi'i brofi a'i oresgyn am dro a'r posibiladau o gydbwysedd gwell rhwng bywyd a gwaith yn cyniwair yn y meddwl. Roedd cyfleoedd i gysylltu swyddfeydd ar hyd a lled y wlad heb orfod teithio am oriau a hynny i gost fawr yn realiti i'w groesawu. Roedd addasu i fyw yn fwy gwyrdd a chynaliadwy yn ymddangos yn haws nag o'r blaen. Roedd mynediad at ddigwyddiadau diwylliannol, adloniannol, neu wleidyddol yn haws i'r rhai â chyfrifoldebau gofalu neu ddyddiaduron gorlawn. Er bod colli'r cyswllt wyneb yn wyneb yn affwysol o boenus roedd cynulleidfaoedd rhai cymdeithasau'n chwyddo ac yn elwa o fod ar ffurf rithiol, yn sicr roedd presenoldeb mewn cyrsiau hyfforddi a chyfarfodydd wedi gwella! Pawb yn ceisio gwneud y gorau ohoni. Ynghanol y newid hyn i gyd, bu raid i'n defnydd o'r Gymraeg a'n gallu i'w defnyddio addasu bron fel petai dros nos. Newidiodd y gofod sgwrsio i fod yn un rhithiol yn hytrach na chymunedol. Daeth ymadroddion neu ystyron newydd i eiriau yn rhan o'n sgwrs bob dydd - 'hunanyysu', 'cadw pellter cymdeithasol', 'meudwyo mawr', 'y clo mawr', 'cyfradd R' a 'swigen'.

Ond, fe lethodd misoedd duon y gaeaf gryn dipyn o'r brwdfrydedd dros bosibiliadau'r normal newydd hwn. Fe gofnodwyd colledion aruthrol yn ddyddiol dros fisoedd y gaeaf, bu ysgolion ar gau eto am fisoedd hirion, a'r effaith ar fusnesau a phrif strydoedd yn drychinebus. At hynny, daeth trafodaethau am anghenion lles ac iechyd meddwl i frig yr agenda, gwelwyd cymdeithasau a sefydliadau diwylliannol yn gwegan, a swyddi yn y fantol, i enwi dim ond rhai o'r agweddau ar fywyd a lethwyd gan y pandemig.

Felly, roedd ystyried y cwestiwn, 'i ba raddau mae modd meddwl yn obeithiol am y Gymraeg yng nghyd-destun llethol y pandemig?' hyd yn oed yn fwy amserol erbyn cynnal y gynhadledd ym mis Mawrth 2021, flwyddyn union wedi i'r clo mawr cyntaf ddigwydd. Roeddem yn awyddus i archwilio i ba raddau mae COVID-19 wedi esgor ar gyfleoedd newydd i ni sy'n byw, yn gweithio ac yn astudio drwy'r Gymraeg mewn gwirionedd? I ba raddau mae COVID-19 wedi esgor ar gyfleoedd i bobl ymwneud â'r Gymraeg o'r newydd, neu ai ei chipio o afael pobl mae wedi'i wneud a lleihau eu gallu i'w hymarfer? Ai gofid hyd yn oed yn fwy llym sydd ar ein pennau yng nghyd-destun y Gymraeg o hyn ymlaen?

Byddai'n dda meddwl nad yw'r darlun yn ddu i gyd. Er bod ein profiadau gyda COVID-19 wedi amlygu'r heriau fwyfwy, bod rhai datrysiadau i rai heriau wedi'u hadnabod ac wedi'u codi i frig y rhestr o flaenoriaethau os nad wedi'u cyflwyno eisoes. Nod y gynhadledd felly, oedd rhoi cyfle i'r sefyllfa gael ei hystyried o ddifri, tynnu rhanddeiliaid ynghyd i gyd-drafod a rhannu syniadau ar sut y gallwn ni droi gofid yn obaith.

Bu'n ddiwrnod gwerth chweil o drafodaethau, ac mae'r adroddiad dilynol hwn yn ymgais i gwmpasu a chofnodi'r testunau a drafodwyd, y canfyddiadau a ddatguddiwyd a'r camau nesaf ddaeth i'r amlwg. Cyflwynir yma hefyd argymhellion ar gyfer llywodraeth newydd Cymru ac awdurdodau lleol ynghyd â chamau nesaf y gallai cynadleddwyr a chefnogwyr y Gymraeg eu hystyried a'u gweithredu.

Hoffwn ddiolch yn gynnes i'r holl gyfranwyr a rannodd eu profiadau ac a gyflwynodd eu canfyddiadau yn y gynhadledd. Mawr yw fy nioch hefyd i Osian Rhys o gwmni Nico, a Lynsey Thomas o Academi Hywel Teifi, am eu gwaith yn llunio'r adroddiad hwn gyda mi, ac am dacluso'r recordiadau sydd ar gael o'r sesiynau i gyd a hynny ar wefan Academi Hywel Teifi.

Gobeithiaf y byddwch yn canfod, yng nghynnwys yr adroddiad hwn a chyfraniadau arbennig ein siaradwyr, yr ysbrydoliaeth i barhau â'r gwaith o warchod a datblygu'r Gymraeg i wrthsefyll effeithiau pandemig COVID-19 neu unrhyw aflwydd tebyg i'r dyfodol.

*Dr Gwenno Ffrancon, Cyfarwyddwr Academi Hywel Teifi*

# 1 Heriau a chyfleoedd byd addysg a'r blynyddoedd cynnar

"Darllenwch strategaeth iaith Cymraeg 2050 a daw hi'n bur amlwg fod cyfran go sylweddol o feddylfryd Llywodraeth Cymru wedi'i seilio ar y rhagdybiaeth fod creu siaradwyr newydd, drwy'r gyfundrefn gofal ac addysg, yn sylfaenol ac yn allweddol i'w gweledigaeth."

*Dr Gwenllian Lansdown Davies, Mudiad Meithrin*

"Does dim modd gweithredu strategaeth Cymraeg 2050 heb gynllunio a chreu gweithlu cyfrwng Cymraeg mewn ffordd bwrpasol."

*Lowri Jones, Mentrau Iaith Cymru*

Wrth i leoliadau gofal plant ac ysgolion gau yn sgil y cyfyngiadau, roedd rhaid wynebu'r realiti mai Saesneg y byddai mwyafrif y plant yn ei siarad gartref. Yn genedlaethol, tua 6% o'n plant sy'n dysgu'r Gymraeg adre erbyn hyn. Mae'r cyfnod hwn wedi'n hatgoffa pa mor hanfodol yw addysg Gymraeg o ran creu siaradwyr, ac wedi tynnu mwy o sylw nag erioed at yr angen i gefnogi rhieni sydd â'u plant mewn addysg Gymraeg er mwyn sicrhau twf a llwyddiant y sector. Cynhaliodd RhAG holiadur i gasglu profiadau rhieni o addysg Gymraeg yn y cyfnod, ac mae gwefan arbennig 'Cymraeg i Rieni' wedi'i chreu i gynnig cefnogaeth iddynt yn ystod cyfnod COVID-19.

Mae angen cynyddu cyflymder twf addysg Gymraeg yn sylweddol er mwyn cyrraedd y miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Mae rhai awdurdodau lleol sydd heb agor un ysgol gynradd Gymraeg newydd ers eu sefydlu yn 1996. Yn ogystal, mae'r llwybr clir o'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg - o'r cylch ti a fi, y cylch meithrin, Dechrau'n Deg, y cynllun gofal plant - i mewn i'r ysgol, yr un mor bwysig yn y bôn â datblygu addysg statudol cyfrwng Cymraeg. Mae angen cydnabyddiaeth o hynny gan awdurdodau lleol a llywodraeth genedlaethol, ac mae buddsoddiad uwch yn y blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn hanfodol.

Bu toriadau sylweddol i gyllideb y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn sgil y pandemig, a bu'n rhaid addasu cynlluniau Cymraeg Gwaith yn benodol, gan gadw'r ethos dysgu dwys wrth symud at hunanastudio. Gwelodd y sector cyfan drawsnewidiad wrth i'r holl ddysgu symud ar-lein, gan brysuru datblygiadau oedd eisoes ar waith yn llunio deunyddiau digidol ac yn creu cyrsiau cyfunol newydd. Cael pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yw'r nod pwysicaf, sy'n arbennig o anodd gyda'r cyfyngiadau presennol - mae angen creu cymunedau rhithiol felly, gan edrych ymlaen at ddychwelyd at ymwneud wyneb yn wyneb yn y man. Drwy gofleidio'r cyfleoedd oedd yn newydd i bawb, mae mwy o undod yn y sector bellach, mae'r cyfathrebu mewnol yn well, ac mae cynnydd wedi bod yn y niferoedd sy'n dysgu Cymraeg eleni. Fodd bynnag, clywyd bod Gwlad y Basg yn gwario tair gwaith cymaint ar ddysgu Basgeg i Oedolion â'r hyn sy'n cael ei fuddsoddi yma mewn Cymraeg i Oedolion.

## Argymhellion i Lywodraeth newydd Cymru


- Cyflwyno Deddf Addysg Gymraeg gyda nod hirdymor o wneud y Gymraeg yn gyfrwng iaith y gyfundrefn addysg gyfan
- Yn y cyfamser, mynnu targedau mwy uchelgeisiol yn y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg o ran symud ysgolion i fyny'r continwmm iaith - creu ysgolion Cymraeg newydd a throi ysgolion dwyieithog a Saesneg yn ysgolion Cymraeg
- Buddsoddi er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn y wlad yn gallu cael profiad cylch meithrin cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod pob ysgol Gymraeg newydd yn cynnwys cylch meithrin
- Buddsoddi'n sylweddol mewn hyfforddiant i'r gweithlu addysg a gofal plant, gan gynnwys hyfforddiant ac amser o'r gwaith i ddod yn rhugl yn y Gymraeg
- Paratoi rhaglen broffesiynol i athrawon er mwyn eu grymuso i annog a chefnogi rhieni sydd â'u plant mewn addysg Gymraeg
- Datblygu cynlluniau cynhwysfawr dysgu Cymraeg i rieni, gan gynnwys adnoddau er mwyn cefnogi pob rhiant i allu darllen Cymraeg yn hyderus gyda'u plant yn y man cyntaf
- Cyhoeddi rhaglen gyfalaf sylweddol arall i gefnogi twf addysg Gymraeg fel yr un a gyhoeddwyd yn 2018

## Camau i'r cynadleddwyr

- Ymuno â'ch fforwm addysg Gymraeg sirol ar mwyn pwysu ar eich awdurdod lleol i weithredu'n fwy uchelgeisiol i ddatblygu addysg Gymraeg dros y deng mlynedd nesaf
- Gwirfoddoli ar bwyllgor cylch meithrin lleol
- Ymuno â chynllun Siarad, sef cynllun y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i siaradwyr rhugl gefnogi dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg

## Dolenni

- [Maniffesto Mudiad Meithrin ar gyfer etholiadau'r Senedd 2021](#)
- [Cyfweiliad Gwenllian Lansdown Davies gyda Chomisiynydd y Gymraeg, Aled Roberts](#)
- [Gwefan 'Cymraeg i Rieni' a luniwyd gan RhAG i gynnig cefnogaeth yn ystod y cyfnod clo](#)
- [Adnodd Papat Cymraeg, y gellid datblygu adnodd tebyg iddo ar gyfer rhieni di-Gymraeg](#)
- [Cynllun Siarad y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol](#)
- [Ystadegau Dysgu Cymraeg 2019-2020](#)



## 2 Heriau a chyfleoedd ym maes tai a mudo

"Mae angen ymateb cadarnhaol i ddiffyg tai fforddiadwy mewn ardaloedd traddodiadol Cymraeg er mwyn osgoi newid andwyol i broffil ieithyddol rhai o'n cymunedau"

*Lowri Jones, Mentrau Iaith Cymru*

"Yn fy marn i, dydyn ni ddim yn ceisio cael gwared hefo ail gartrefi - mae'n hollbwysig i ddeall hyn... Be' dw i'n dadlau drosto fo ydy ceisio cael sefydlogrwydd yn y maes ail gartrefi. Dydyn ni ddim eisiau cael mwy ohonyn nhw, neu, o safbwynt cyfiawnder cymdeithasol, 'da ni eisiau lleihau eu niferoedd ond mewn ffordd sydd wedi cael ei rheoli yn ara deg ac mewn modd cyfrifol... Y nod polisi cyhoeddus ydy sefydlogrwydd. [Ond] i gyrraedd hynny, rhaid cymryd camau mwy radical [yn dilyn Brexit a COVID-19] nag y bydden ni wedi'u cymryd fel arall."

*Dr Simon Brooks, Prifysgol Abertawe*

"Mae dros 5,000 o siaradwyr Cymraeg yn gadael Cymru bob blwyddyn"

*Dr Tamsin Davies, Cymdeithas yr Iaith*

Cyn dyfodiad COVID-19, roedd yn hysbys bod prisiau tai mewn rhai ardaloedd ymhell y tu hwnt i gyrraedd pobl leol, ac mae hyd yn oed tai 'fforddiadwy' yn gynyddol anfforddiadwy erbyn hyn. Mae ail gartrefi'n broblem ddifrifol mewn rhai rhannau o'r wlad, ac i ychwanegu at y pwysau, mae mwy a mwy o brynu tai mewn cymunedau Cymraeg yn benodol er mwyn eu gosod fel llety gwyliau ar wefannau fel Airbnb.

Mae'r newid ym mhatrymau gwaith pobl yn sgil y cyfnodau clo yn golygu y bydd pobl yn gallu gweithio o adre am ran o'r wythnos, a disgwylir y bydd hyn yn arwain at gynydd mawr yn y galw am ail gartrefi. O gyfuno hyn â Brexit sydd wedi'i gwneud yn anoddach symud i fyw i wledydd eraill Ewrop, mae perygl y bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar ardaloedd arfordirol a chefn gwlad Cymru.

Rhai o'r amcanion wrth alw am Ddeddf Eiddo a Chynllunio yw sicrhau bod tai gweigion yn cael eu defnyddio, gosod cap ar ganran ail gartrefi mewn cymunedau penodol, newid y diffiniad o dai fforddiadwy, rheoli prisiau rhent, datganoli cynllunio i'r lefel fwyaf lleol bosib, a dychwelyd rhagor o dai i ddwylo cyhoeddus fel tai cymdeithasol.

Mae angen rhoi sylw i allfudo yn gymaint â mewnfudo, ac mae diffyg cyfleoedd gwaith yn cael effaith ddifrifol yn hyn o beth yn ogystal â phrisiau tai. Clywyd hefyd am rai o bolisiau'r Llywodraeth sy'n hybu allfudiad siaradwyr Cymraeg, fel Rhwydwaith Seren sy'n denu ein myfyrwyr disgleiriaf i astudio mewn prifysgolion yn bennaf yn Lloegr.

Roedd y problemau hyn yn bodoli ymhell cyn cyfnod COVID-19. Yn 2015-16, gadawodd 3,670 o bobl ifanc Ceredigion y sir, sy'n golygu bod bron i 20% o holl bobl 15-29 oed y sir wedi gadael mewn blwyddyn. Yn fwy diweddar, yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2020, mae data'r Gofrestrfa Dir yn dangos bod prisiau tai Ceredigion wedi codi 11.8%, y cynnydd mwyaf yng Nghymru. Pris cyfartalog tŷ yn y sir ym mis Mehefin 2020 oedd £207,261. Y pryder yw bod effaith COVID-19 ar symudedd pobl yn mynd i waethygu'r argyfwng ymhellach.

### Argymhellion i Lywodraeth newydd Cymru

- Rhoi grymoedd i awdurdodau lleol allu rheoli'r farchnad dai trwy ddiwygiadau yn y drefn gynllunio.
- Mynd i'r afael â'r gofidiau yng Ngwynedd bod pobl yn osgoi talu treth gyngor ar ail dai drwy eu troi'n 'fusnesau'
- Cyflwyno treth trafodiadau tir yn lleol lle mae ail gartrefi'n broblem
- Newid y system gynllunio fel bod angen caniatâd cynllunio i drosi tŷ annedd yn llety gwyliau, a threialu'r angen i gael caniatâd cynllunio cyn troi tŷ annedd yn ail gartref hefyd
- Cyflwyno Deddf Eiddo a Chynllunio
- Adolygu Rhwydwaith Seren sy'n hybu allfudiad o Gymru
- Gostwng neu ddileu ffioedd dysgu i fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio ym mhrifysgolion Cymru
- Datganoli cannoedd o swyddi sector cyhoeddus o Gaerdydd, a sefydlu cyrff newydd yn siroedd y gorllewin fydd yn gweinyddu yn Gymraeg
- Cyflwyno rhaglen sylweddol o ddysgu Cymraeg yn benodol i bobl sy'n symud i fyw i siroedd y gorllewin
- Sefydlu comisiwn i ymchwilio'n swyddogol i dynged y Gymraeg fel iaith gymunedol yn sgil Brexit a COVID-19 ac i lunio argymhellion polisi cenedlaethol ar gyfer hynny

### Argymhellion i awdurdodau lleol y gorllewin

- Dilyn Cyngor Gwynedd o ran polisi premiwm treth gyngor ar ail gartrefi
- Ymestyn polisi Tai Marchnad Leol cynghorau Gwynedd a Môn i ragor o ardaloedd

### Camau i'r cynadledwyr

- Mae'r newidiadau i batrymau gweithio yn golygu y bydd yn haws i siaradwyr Cymraeg fyw yn siroedd y gorllewin gan weithio yn y sector cyhoeddus o adre

### Dolenni

- [Adroddiad Dr Simon Brooks, Ail gartrefi: Datblygu polisiau newydd yng Nghymru](#)
- [Adroddiad Dyfodol i'r Iaith, 'Rhuthr am dai yng nghyd-destun heriau COVID-19'](#)
- [Tai Marchnad Leol - Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd Cyngor Gwynedd a Ynys Môn](#)



# 3 Heriau a chyfleoedd mewn polisi cyhoeddus

"Y gobaith wrth gwrs ydy bod ganddon ni strategaeth genedlaethol a ddylai sicrhau bod y Gymraeg yng nghanol y drafodaeth wrth i ni geisio ailadeiladu. Mae'r safonau llunio polisi yn rhoi pwysau ar bob sefydliad yn y sector gyhoeddus i wneud yn siŵr bod y Gymraeg yn rhan o'r ystyriaeth wrth i ni geisio ailadeiladu... Yr her wrth gwrs yw sicrhau bod y strategaeth yn cael ei gweithredu, a dyna lle bydd angen yr egni yn ystod y misoedd nesa."

*Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg*

"Rhan fach iawn o'r gyllideb sydd ei hangen i hybu'r Gymraeg yw'r gyllideb sy'n eistedd gyda'r gweinidog sy'n gyfrifol am y Gymraeg... Os nad ydyn ni'n gallu ailffurfio cyllidebau'r Gweinidogion eraill [i flaenoriaethu'r iaith], dydyn ni ddim yn mynd i gael y buddsoddiad angenrheidiol."

*Helen Mary Jones AS, Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Senedd*

"Fel iaith leiafrifol, mae angen mwy o gefnogaeth ar y Gymraeg nag sydd ei angen ar y Saesneg i oroesi newidiadau ar y raddfa rydyn ni wedi'i gweld dros y flwyddyn ddiwethaf..."

*Dr Lowri Hughes, Prifysgol Bangor*

Dangosodd sawl achos yn ystod y cyfnod diwethaf fod diwylliant yn dal i fod mewn polisi cyhoeddus o drin y Gymraeg fel rhyw fath o ychwanegiad yn hytrach na rhywbeth sy'n greiddiol i bob maes. Er bod dealltwriaeth ym maes polisi iaith o bwysigrwydd yr economi i'r Gymraeg, er enghraifft, prin bod cynllun adferiad economaidd y Llywodraeth yn cyfeirio at yr iaith o gwbl. Yn yr un modd ym maes addysg, gwelir addysg cyfrwng Saesneg fel rhywbeth normal, ac addysg cyfrwng Cymraeg fel mater penodol ac arbennig. Clywyd bod Gweinidog y Gymraeg, Eluned Morgan AC, wedi cydnabod ei phryder nad yw Is-Adran y Gymraeg fel y mae yn ddigon dylanwadol. Mae angen i'r gwasanaeth sifil ar draws yr adrannau i gyd, ac yn yr holl awdurdodau lleol, ddeall eu swyddogaeth o ran hybu'r Gymraeg. Nid cyfrifoldeb i swyddogion penodedig mewn rhai adrannau yw hyn, nac i un Gweinidog, ond i holl Weinidogion Cymru a chyllidebau'r Llywodraeth gyfan. Er mwyn cyrraedd y nod, mae angen ymdrech gyfannol.

Un gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi cael llawer o sylw yn ystod cyfnod COVID-19 yw'r gwasanaeth iechyd. Mae diffyg gwasanaeth iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg yn anghyfiawnder ar draws y wlad - a hynny mewn maes lle mae 'angen iaith' yn derm mwy addas na 'dewis iaith' o ystyried natur y gwasanaeth.

Un o ganlyniadau cadarnhaol y pandemig o bosib yw ymwybyddiaeth uwch o statws Cymru fel gwlad ar wahân ond hefyd fel gwlad ddwyieithog, wrth i'r Prif Weinidog Mark

Drakeford gael ei holi yn y ddwy iaith yn ystod ei sesiynau briffio rheolaidd, sy'n cael eu darlledu ar draws gwledydd Prydain yn aml.

Mae rhai sefydliadau cyhoeddus wedi defnyddio COVID-19 fel esgus i rwyfo'n ôl o ran y Gymraeg. Yr ateb i hynny yw gorfodi Safonau'r Gymraeg yng nghyd-destun y cyrff hynny. Clywyd mai Safon 145 yw'r Safon bwysicaf un o bosib, sef y Safon sy'n gosod cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i greu strategaeth bum mlynedd ar gyfer cynnal neu gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn eu hardal. Nid yw holl botensial y Safon hon wedi'i gwireddu hyd yma, ond gallai fod yn bellgyrhaeddol iawn wrth

## Argymhellion i Lywodraeth newydd Cymru

- Sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio ar draws holl feysydd gwaith y Llywodraeth a'i bod yn gyfrifoldeb i bob maes
- Sicrhau bod cyllidebau pob un o Weinidogion Cymru yn blaenoriaethu'r Gymraeg yn eu priod feysydd er mwyn cyflawni targedau Cymraeg 2050
- Galw am ddatganoli grymoedd darlledu o San Steffan i Gymru, fel cam tuag at sefydlu cyfundrefn ddarlledu sy'n gwasanaethu Cymru a'r Gymraeg
- Buddsoddi i ddatblygu'r Gymraeg yn y byd technoleg ddigidol
- Ymestyn cwmpas Safonau'r Gymraeg i ragor o sefydliadau a chwmnïau
- Sefydlu ysgol feddygol ym Mangor i hyfforddi gweithlu iechyd a gofal dwyieithog
- Gosod targedau ar gyfer hyfforddi gweithwyr iechyd sy'n gallu gweithio drwy'r Gymraeg

## Dolenni

- [Adroddiad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Effaith yr achosion o COVID-19 ar y Gymraeg](#)
- [Manifesto Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer etholiad Senedd 2021](#)
- [Dogfen weledigaeth Cymdeithas yr Iaith, Mwy na Miliwn: Dinasyddiaeth Gymraeg i Bawb](#)



# 4 Heriau a chyfleoedd mewn gweithdrefnau ac yn y gweithle

"Dysgwyr ydw i felly weithiau dwi'n teimlo'n hapusach yn defnyddio'r Gymraeg mewn sgwrs anffurfiol, nid cyfarfodydd ffurfiol...a dwi 'di colli bob cyfle o 'watercooler chats' ag ati"

*Un o gyfranogwyr rhaglen ARFer yn trafod effaith gweithio o adre ar eu defnydd*

"Byddai prosesau creu, adolygu, ymgynghori a rhannu polisi yn cymryd misoedd lawer fel arfer. Ond doedd, a dyw hynny, ddim yn opsiwn yn y cyfnod hwn. "Speed not perfection" chwedl sefydliad iechyd y byd. Mae'r mantra hwnnw wedi bod yn agos at fy nghalon drwyddi draw."

*Dr Gwenllian Lansdown Davies, Mudiad Meithrin*

"Mae'n bwysig iawn i ni fel [tîm dwyieithrwydd coleg addysg bellach] ennyn ymagwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg a dwyieithrwydd, ac mae darparu gwasanaeth cyfieithu hygyrch yn un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ddylanwadu ar agweddau ein staff."

*Rebecca Lavis, Prifysgol Abertawe a Grŵp Colegau NPTC*

Maes sydd wedi newid i'r rhan fwyaf o bobl yn sgil y cyfnodau clo yw'r gweithle, maes sy'n ganolog i weledigaeth y Llywodraeth o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg a chynyddu defnydd bob dydd o'r iaith. Mae'r gweithle'n un o'r peuoedd sy'n cynnig cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd, ac mae'n fodd o feithrin siaradwyr newydd a datblygu sgiliau siaradwyr rhugl. Wrth i'r newid i weithio o adre addasu'r ffordd rydym ni'n ymwneud â'n gilydd mewn ffordd sylfaenol, rydym wedi colli'r ymwneud anffurfiol sy'n rhan annatod o waith swyddfa arferol, yn ogystal â chlywed yr iaith yn cael ei siarad gan eraill bob dydd.

Nod rhaglen ARFer yw defnyddio egwyddorion newid ymddygiad i sbarduno rhagor o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, gan helpu gweithleoedd i symud oddi wrth ddwyieithrwydd goddefol tuag at ddwyieithrwydd gweithredol. Hyd yma, mae'r canlyniadau wedi bod yn addawol iawn.

Mae'r newid i weithio o bell wedi arwain hefyd at ffyrdd newydd o gynnal cyfarfodydd, ac mae llawer o gyfarfodydd a fu'n ddwyieithog yn cael eu cynnal yn Saesneg bellach heb gyfieithu ar y pryd. Bu'r Senedd yn arloesi drwy gynnal y sesiwn lawn dros lwyfan Zoom gyda chyfieithu ar y pryd ers dechrau'r cyfnod clo cyntaf. Fodd bynnag, nid oes cyfleuster cyfieithu ar y pryd ar lwyfan Teams, ac mae pwysau wedi bod ar Microsoft i gyflwyno cyfleuster o'r fath ar fyrder.

Yng nghyd-destun y gyfundrefn cyfiawnder, clywyd am ymchwil Prifysgol Aberystwyth i gyfieithu ar y pryd mewn achosion llys a'r cymhlethdodau ychwanegol sy'n codi drwy

gynnal gwrandawiadau o hirbell, y tu hwnt i drafferthion technegol yn unig. Mae hynny'n cynnwys y ffaith bod angen i'r cyfieithydd allu gweld y siaradwr yn glir, cyfathrebu cyffredinol da rhwng y cyfieithydd a'r siaradwr, yr angen am fwy nag un cyfieithydd pan fydd mwy nag un siaradwr yn cymryd rhan, a theimlad posib o unigedd siaradwyr sy'n dibynnu'n llwyr ar gyfieithydd heb fod yn yr un man daearyddol â'u cyfreithwyr. Er bod ffyrdd o oresgyn rhai o'r anawsterau, a bod manteision i'r datblygiad yn ogystal ag anfanteision, nid yw cyfieithu ar y pryd o hirbell yn briodol er mwyn sicrhau cyfiawnder mewn achosion llys ym mhob achos ac mae'n rhaid canfod datrysiadau eraill.

Yn sgil yr angen i ymateb i heriau'r cyfnod, bu mwy o ymwneud hefyd rhwng llywodraeth leol a llywodraeth ganol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Clywyd bod swyddogion llywodraeth leol oedd yn dymuno siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd yn cael yr argraff gan swyddogion Llywodraeth Cymru bod hynny'n creu "niwsans", sy'n codi pryderon ar lefel sylfaenol am ddiffyg dealltwriaeth y gwasanaeth sifil o bwysigrwydd y Gymraeg.

## Argymhellion i Lywodraeth newydd Cymru

- Cynyddu cyllideb cynlluniau Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn benodol, gan ddechrau drwy ddad-wneud y toriad sylweddol diweddar i'r gyllideb honno er mwyn sicrhau y bydd darpariaeth gyflawn wyneb yn wyneb ar gael yn y dyfodol yn ogystal â'r dulliau hunanastudio presennol
- Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i weision sifil
- Adolygu polisiau iaith ar gyfer cyfarfodydd os nad ydynt eisoes yn ystyried anghenion y Gymraeg o fewn y gofod cyfathrebu rhithiol
- Cynnal y pwysau ar Microsoft i ddatblygu sianel gyfieithu ar Teams

## Camau i'r cynadleddwyr

- Amlygu ein dymuniad i siarad Cymraeg ar lwyfannau cyfathrebu rhithiol drwy roi'r swigen oren ar ein proffil neu roi neges ar ein 'statws' yn gofyn i bobl siarad Cymraeg gyda ni, ac annog cydweithwyr i wneud yr un fath

## Dolenni

- [Raglen ARFer Prifysgol Bangor](#)
- [Cyngor Comisiynydd y Gymraeg ar gynnal cyfarfodydd fideo dwyieithog](#)
- [Tudalennau technoleg Cymraeg Helo Blod](#)
- [Cwrs Gloywi Iaith ar gyfer siaradwyr rhugl](#)



## 5 Heriau a chyfleoedd yn ein cymunedau

"Byddai sicrhau diogelwch [i gwrdd wyneb yn wyneb], cymorth i ddefnyddio technoleg, cyllid ychwanegol a chymorth i hysbysebu yn helpu'r grwpiau [cymunedol cyfrwng Cymraeg] i barhau ac i ffynnu yn y dyfodol."

*Lisa Walters, Is-Adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru*

"Rydym yn aml yn difreintio'n cymunedau tlotaf o gysylltiad gyda'n hiaith yn ogystal â'r diwylliant a'r dreftadaeth sydd ynghlwm â'r Gymraeg... Mae angen sicrhau bod y Gymraeg yn rhan greiddiol o'r gefnogaeth sy'n cynorthwyo cymunedau i oresgyn heriau economaidd a datblygu dyheadau ac uchelgais ar gyfer y dyfodol."

*Lowri Jones, Mentrau Iaith Cymru*

"Nid creu cyfleon [i siarad Cymraeg] sydd angen ei wneud, ond sicrhau rheswm, pwrpas. A pha bwrpas sy'n bwysicach na chyd-ymgyfranogi yn y broses - yn yr antur - o greu ac ail-greu cymdeithas?"

*Euros Lewis, Prosiect Fory*

Mae arolwg gan Lywodraeth Cymru o effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg yn awgrymu bod mwyafrif llethol y gweithgarwch wedi dod i ben yn llwyr ar ôl y cyfnod clo cyntaf, a bod y sector yn eitha bregus yn gyffredinol. Roedd lleiafrif o grwpiau wedi llwyddo i gynnal gweithgareddau ar-lein, oedd wedi golygu cryn newid iddynt o ystyried mai 2% o'r grwpiau oedd wedi cynnal gweithgareddau ar-lein cyn y pandemig. Er hynny, doedd y rhan fwyaf o grwpiau ddim yn disgwyl y bydd eu gweithgarwch yn newid yn sylweddol yn yr hirdymor os bydd y cyfyngiadau'n llacio, gyda dim ond 13% yn dweud y byddent yn mabwysiadu sawl ffordd newydd o weithredu. Y mentrau iaith oedd fwyaf tebygol o ddweud y byddent yn mabwysiadu sawl ffordd newydd o weithredu.

O raid, mae llawer llai o weithgarwch cymunedol wedi bod dros y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, ym mhrofiad y Senedd yng nghyfnod COVID-19, mae digwyddiadau estyn allan digidol yn gallu bod yn fwy effeithiol o ran cyrraedd pobl newydd, yn ogystal â chyrraedd pobl ym mhob rhan o'r wlad.

Pan ddaeth popeth i stop gyda'r cyfnod clo cyntaf, roedd yn gyfle i bawb oedi a holi'n hunain sut fywyd rydyn ni'n ei fyw. Aeth Prosiect Fory ati, yn bennaf yn nhair sir y gorllewin, i gynnal sgysiau gyda chymunedau, gan holi pa fath o gymdeithas rydyn ni am fyw ynddi ar ôl i'r argyfwng ddod i ben. Nid darparu ar ran cymunedau yw nod y prosiect ond rhoi arweiniad a'u sbarduno i weithredu drostyn nhw'u hunain, drwy ysgogi, galluogi a chefnogi.

Rhwydwaith o 14 o fentrau cymdeithasol yw Cwmni Bro Ffestiniog, sy'n annibynnol ond yn dod at ei gilydd o dan 'barasôl' Cwmni Bro, gan gadw'r elw a wneir drwy fasnachu o fewn y busnesau yn hytrach na dosbarthu elw i unigolion. Mae'n cynnwys pob math o fentrau, o westai a bwytai i brosiectau amgylcheddol a lleihau tlodi, a rhyngddynt maent yn cyflogi 150 o bobl. Mae dadansoddiad o'r effaith yn dangos bod yr arian yn cylchdroi yn y gymuned i raddau helaeth, sy'n golygu bod yr effaith economaidd leol yn cael ei hamlhau.

Gan ddwyn ysbrydoliaeth gan Radio Beca, mae BROcast Ffestiniog wedi mynd ati i gymunedol'i'r cyfryngau, wrth i bobl yr ardal fynd ati i greu'r cyfryngau eu hunain. Drwy gyfuno elfennau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y gymuned, mae Cwmni Bro wedi dechrau sbarduno newid diwylliannol ym Mro Ffestiniog - wrth i bobl symud oddi wrth feddylfryd o ddibyniaeth tuag at feddylfryd o wneud pethau drostyn nhw'u hunain.

### Argymhellion i Lywodraeth newydd Cymru

- Creu rhwydwaith o swyddogion mentrau cymdeithasol i sefydlu gweithleoedd Cymraeg ar draws y wlad
- Gwyrddroi pwyslais presennol gwariant datblygu cymunedol yn llwyr fel mai mentrau cymunedol a busnesau bach sy'n cael mwyafrif y buddsoddiad yn hytrach na chorfforaethau mawr
- Rhoi cymorth i sefydlu Senedd y Cymunedau ar fodel tebyg i Landsbygdsriksdag yn Sweden er mwyn rhoi llais i gymunedau ym mhob rhan o'r wlad
- Cydweithio gyda mudiadau Cymraeg llawr gwlad wrth gynllunio rhaglenni cymunedol cenedlaethol, gan gynnwys rhaglenni trechu tlodi a datblygu economaidd, fel bod y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog o'r dechrau
- Mynd ati'n gyflymach i gau'r bwlch digidol
- Rhoi cymorth ariannol i fudiadau sy'n creu gweithgarwch lleol Cymraeg, er enghraifft eisteddfodau lleol, er mwyn ailadeiladu'r rhwydweithiau hyn sy'n ofodau pwysig ar gyfer defnyddio'r Gymraeg fel iaith bob dydd

### Camau i'r cynadleddwyr

- Dwyn ysbrydoliaeth o weithgarwch Cwmni Bro Ffestiniog a Phrosiect Fory a mynd ati i weithio yn ein cymunedau

### Dolenni

- [Maniffesto Mentrau Iaith Cymru ar gyfer etholiadau'r Senedd](#)
- [Effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg: canfyddiadau arolwg Llywodraeth Cymru](#)
- [Polisi'r Llywodraeth ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd](#)
- [Cynllun Cyfaill Cymru a sefydlwyd ym mis Awst 2020 fel llinell ffôn i bobl hŷn oedd yn dymuno cael sgwrs drwy gyfrwng y Gymraeg](#)
- [Prosiect Fory](#)
- [Cwmni Bro Ffestiniog](#)
- [Partneriaeth Ogwen](#)
- ["Dod ynghyd" Prosiect Fory](#)

## I gloi

“Does dim yn y byd yn fwy cysurus nac anobeithio”, meddai Saunders Lewis bron i 60 mlynedd yn ôl. Ydy'r sefyllfa'n anobeithiol? Ydy “os bodlonwn ni i anobeithio” meddai'r ysgolhaig o chwyldroadwr. Bydd hi'n cymryd cryn egni, dyfalbarhad a phenderfynoldeb i beidio colli gobaith ac i sicrhau mai cyfle nid gofid a ddaw i'n rhan wrth i ni ymateb i her y pandemig.”

*Dr Gwenllian Lansdown Davies, Mudiad Meithrin*

“Peidied neb ohonon ni â gadael i'r pandemig fod yn esgus rhag gweithredu strategaeth Cymraeg 2050. Rhaid i ni gadw'r ffydd, atgyfnerthu'r trefniadau sydd ganddon ni... a mynd ati i greu atebion.”

*Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg*

“Arnon ni siaradwyr y Gymraeg mae'r dyletswydd pennaf i ymateb i'r her ddiweddaraf hon. Mae'r Gymraeg yn seilo yn ein sefydliadau, ond does dim angen iddi fod yn ein bywydau dydd-i-ddydd ni. Ein nod ni ddylai fod ysgogi, galluogi a chefnogi ein cyd-Gymry a'r rheiny sy'n dewis dod aton ni i Gymru, i ddefnyddio'u Cymraeg... Roedd teitl y gynhadledd yn gofyn a oedd COVID-19 yn cynnig gofid i ni yn fwy na gobaith. Dw i'n teimlo bod yna obaith i ni, a dw i'n gobeithio os nad oeddech chi'n rhannu'r farn honno, bod yna ysbrydoliaeth wedi bod i chi heddiw, i ddal ati ac i frwydro dros y Gymraeg.”

*Dr Gwenno Ffrancon, Academi Hywel Teifi*

## Amserlen y gynhadledd

9.30am	Croeso gan Dr Gwenno Ffrancon, Cyfarwyddwr Academi Hywel Teifi
9.40am	Panel 1: Heriau a Chyfleoedd Addysgol <b>Y Gymraeg a'r Blynnyddoedd Cynnar yng nghyfnod COVID-19</b> Dr Gwenllian Lansdown-Davies, Mudiad Meithrin <b>Wynebu Her i Ddisgyblion Addysg Gymraeg yn y Cyfnod Clo</b> Elin Maher, RHAG <b>Effaith y Pandemig ar Ddysgu Cymraeg</b> Helen Prosser a Dona Lewis, Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol <b>Cadeirydd:</b> Dr Alex Lovell
11.00am	Panel 2: Heriau a Chyfleoedd Cymunedol <b>Effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg: canfyddiadau arolwg Llywodraeth Cymru (Rhagfyr 2020)</b> Lisa Walters, Is-adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru <b>Creu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg</b> Lowri Jones, Mentrau Iaith Cymru <b>Cadeirydd:</b> Yr Athro Daniel G. Williams
11.50am	EGWYL
12.00pm	<b>Effaith yr Achosion o COVID-19 ar y Gymraeg</b> Trafodaeth ar ganfyddiadau adroddiad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Senedd Cymru gan Helen Mary Jones, Cadeirydd y Pwyllgor <b>Cadeirydd:</b> Sioned Williams
12.30pm	<b>Ail Gartrefi a COVID-19</b> Dr Simon Brooks, Prifysgol Abertawe <b>Cadeirydd:</b> Dr Gwenno Ffrancon
1.00pm	EGWYL CINIO
2.00pm	<b>COVID-19 - Y Gofid a'r Gobaith</b> Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg <b>Cadeirydd:</b> Yr Athro Elwen Evans CF, Dirprwy Is-Ganghellor, Prifysgol Abertawe
2.45pm	Panel 3: Heriau a Chyfleoedd i Gyndogaethau <b>Y rhuthr am dai yng nghyd-destun heriau COVID-19 i'r gyndogaeth Gymraeg</b> Heini Gruffudd, Dyfodol yr Iaith <b>Cysgod y Cofid: Strategaethau adfer y Gymraeg mewn cyfnod dan gwmwl</b> Tamsin Davies, Cymdeithas yr Iaith <b>Cadeirydd:</b> Dr Osian Elias

Bwriad yr adroddiad hwn yw rhoi ciplun yn unig o rai o argraffiadau'r dydd. I gael darlun mwy cynhwysfawr, gallwch wyllo recordiadau o bob un o'r papurau yma: <http://bit.ly/Troigofidynobaith>



# Amserlen y gynhadledd

3.35pm	<p><u>Panel 4: Heriau a Chyfleoedd i Weithdrefnau</u>  <b>Torri Tir Newydd: Ymateb Senedd Cymru i'r Pandemig</b>          Arwyn Jones, Senedd Cymru  <b>Heriau a datrysiadau ar gyfer cyfieithu achosion llys o hirbell</b>          Dr Catrin Fflûr Huws, Dr Rhianedd Jewell, Dr Hanna Binks, Prifysgol Aberystwyth  <b>Cadeirydd:</b> Yr Athro Gwynedd Parry</p>
4.25pm	EGWYL
4.30pm	<p><u>Panel 5: Heriau a Chyfleoedd i Weithleoedd</u>  <b>Rheoliadau, Rhwystrau, Realiti: O'r Theori i'r Gweithle: Arwyddocâd y Pandemig yng Nghyd-destun Cyrff Cyhoeddus yng Nghymru</b>          Rebecca Lavis, Prifysgol Abertawe  <b>Y Gymraeg a gweithio o bell: rhoi'r rhaglen ARFer ar waith yn y normal newydd</b>          Arwel Williams a Dr Lowri Hughes, Prifysgol Bangor  <b>Cadeirydd:</b> Dr Robert Bowen</p>
5.20pm	<p><u>Panel 6: Heriau a Chyfleoedd Cymdeithasol</u>  <b>Prosiect Fory: Gweld yn Lleol. Gweld Ymhell</b>          Euros Lewis, Prosiect Fory  <b>Datblygiad Cymunedol Cyfunol a'r Gymraeg</b>          Sel Williams a Ceri Cunnington, Cwmni Bro Ffestiniog  <b>Cadeirydd:</b> Lynsey Thomas</p>
6.15pm	CLOI

Dyddiad Cyhoeddi: Mehefin 2021

Cyhoeddwr: Academi Hywel Teifi

Prifysgol Abertawe

Adeilad Talbot

Parc Singleton, ABERTAWE SA2 8PP

Ffôn: 01792 602070

[www.abertawe.ac.uk/academi-hywel-teifi/](http://www.abertawe.ac.uk/academi-hywel-teifi/)